**CYNGOR CYMUNED YSTRAD FFLUR**
**COFNODION Y CYFARFOD MISOL**
**12.10.2023 @7pm**
**NEUADD PANTYFEDWEN, PONTRHYDFENDIGAID**

**1. CROESO'R CADEIRYDD A MATERION PERSONOL**
Croesawodd y Cadeirydd y Gyngh. Angharad Jones, bawb i'r Cyfarfod.

**2. YN BRESENNOL**
Cyngh. Mel Briant
Cyngh Ieuan Davies
Cyngh. Ifan Lloyd Davies (Cyngh. Sirol a Chymuned)
Cyngh. Gareth Wyn Edwards
Cyngh Alun Price Jones
Cyngh. Angharad Jones
Cyngh. Richard Jones
Cyngh. Gareth Owen
Cyngh. Elgan Williams (Dirprwy-Gadeirydd)
Eleri Thomas (Clerc)
Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu (SCCyrH)

**3. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**
Ymddiheurodd y Cyngh. Non Jones am ei anallu i fynychu'r Cyfarfod.

**4. MATERION YN YMWNEUD Â'R HEDDLU**
Fe wnaeth SCCH John Evans gyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am ddigwyddiadau'n ystod y mis diwethaf:

Ymddygiad Gwrthgymdeithasol/Aflonyddwch: 0
Lladrad: 0 o'r ardal hon
Difrod troseddol: 0
Roedd arwyddion 20mya wedi eu fandaleiddio mewn llawer o bentrefi cyfagos. Ni wnaed arestiadau.

**Ymddygiad Ci**
Derbyniodd y Cyngor Cymuned bryderon dwfn ynglŷn ag ymddygiad ymosodol ci penodol o fewn y pentref.  Cytunwyd anfon llythyr at y perchnogion yn gofyn iddynt fynd i'r afael â'r pryderon cyn gynted â phosibl er lles trigolion y Pentref.

**Chwilio am help gyda throseddau casineb?**

**Bydd yr Ymgyrch yn cymryd lle'n ystod yr wythnosau nesaf.  CYTUNWYD arddangos y poster ar safle ar y we'r Cyngor Cymuned ac ar FB.**
Mae'r cymorth a'r cefnogaeth yn rhad ac am ddim, yn annibynnol ac yn gyfrinachol ac nid oes angen i chi fod wedi adrodd unrhyw beth i'r heddlu. Mae'r llinell gymorth ar agor 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn ar 0300 30 31 982.
**Hate.crimewales@victimsupport.org.uk**
**www.reporthate.victimsupport.org.uk**

Digwyddiad o fewn y pentref: gyrru cerbyd o dan ddylanwad alcohol.  Prynwyd alcohol o Siop y Bentref am 7am ar yr achlysur dan sylw.
Defnyddiwyd dau gar ac yn anghyfreithlon i yrru un o'r ceir ar y briffordd.

5. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL A BUDDIANT SY'N RHAGFARNU**
**Dim wedi'i ddatgan.**

6. **CADARNHAU COFNODION CYFARFOD 21ain o Fedi 2023**
**CYNIGIWYD** (Y Cyngh. Gareth Edwards), **EILIWYD** (Y Cyngh. Gareth Owen ) a **PHENDERFYNWYD** bod Cofnodion Cyfarfod yr 21ain o Fedi'n gywir ar wahân i'r ffaith fod y Cynghorydd Gareth Owen wedi archebu torch Sul y Cofio yn ogystal â chysylltu â'r biwglwr Mr John Jenkins, Lledrod.

7. **MATERION YN CODI**

**7.1** **Ardal Chwarae Pantyfedwen:** Cynhaliwyd Cyfarfod Safle ar ddydd Mawrth 4 Ebrill dan gyfarwyddyd Stefano Antoniazzi (SA), Cyngor Sir Ceredigion, y Cyng Gareth Owen a Mrs Clare Hughes. Roedd angen matiau newydd. Bydd angen cyllido cyfatebol wrth geisio grant. Gallai grantiau fod ar gael i gwrdd â'r arian cyfatebol ee am grant o £10,000, gallai arian cyfatebol o £10,000 gael ei dalu gan grant pellach. SA i geisio gwybodaeth.

Roedd y Cyngh. Gareth Owen wedi cysylltu â 5 darparwr Arwyneb Ardaloedd Chwarae sef:

1. **RTC Safety Surfaces Cyf**

**Opsiwn 1:** RTC i gael gwared ar hen deils a chyfnewid am ddefnydd arllwys gwlyb du: Amcanbris: £11,919.00 heb TAW
**Opsiwn 2:** Defnyddio Arllwys Gwlyb Du: Teils presennol i'w symud o'r safle a'u gwaredu gan eraill: Amcanbris: £8,217 heb gynnwys TAW.

2. **DCM Surfaces:** Arllwys Gwlyb: £8,819 heb gynnwys TAW.

3. **Playtop**

Arwyneb Rwber Arllwys Gwlyb (item wedi'i ailgylchu): £13,979 heb gynnwys TAW.

**4: Abacus Playgrounds Cyf**
Cyflenwi a gosod arllwys gwlyb £16,775 (heb TAW)
Nid yw gwaith paratoi'r ddaear wedi'i gynnwys.

**5: Adventure Playgrounds: Lappset**

i gyflenwi a gosod arwyneb Rwber Arllwys Gwlyb i sylfaen a baratowyd.
Siglen Iau 21m²
Siglen Plant Bach 18m²
Springers 8m²
Cylchfan 49m²
Amryw chwarae 49m²

**3 Opsiwn**
1. **DU £12,325**
2. **Fleck £13,673**
3. **Lliw Unigol: £16,718**

**Disgwylir amcanbris dan law'r Ysgol Feithrin, Pontrhydfendigaid; gellir o bosibl dod o hyd i grant *Chwaraeon Cymru.***

**Arolygiad Chwarae ROSPA 2023:** cynhaliwyd ym mis Mehefin £75 + TAW. Dosbarthwyd yr Adroddiad ymysg aelodau, a fydd yn rhoi sylw i'r materion sy'n codi, yn ystod y misoedd nesaf.

**7.2** **Pyllau Teifi Pools:** darparu arwyddion i atal rhai cerbydau rhag defnyddio'r ardal hon: Gofynnwyd tybed a ganiateir y Cyngor Cymuned i osod arwyddion.

**7.3** **Diffibriliwr ger Tafarn y Teifi, Ffair Rhos**
**Cyfanswm y diffibrilwyr o fewn Ffair Rhos a Bont yw 4 bellach** megis:

1. Tafarn y Teifi: Ffair Rhos (y Cyngor Cymuned wedi darparu'r bocs)
2. Neuadd Pantyfedwen, Y Bont: Clare Hughes yw'r Gwarchodwr swyddogol o fewn y Gylched.
3. Siop y Bentref, Bont. Ceredig yw'r Gwarchodwr swyddogol o fewn y Gylched.
4. Abaty Ystrad Fflur. (y Cyngor Cymuned wedi darparu'r bocs). Bydd angen clustnodi Gwarchodwr swyddogol ar gyfer y diffibriliwr.

Roedd Pennaeth Ysgol Bont wedi cytuno i'r diffibriliwr sy'n weddill i'w leoli ar safle'r ysgol (o bosib o fewn y maes parcio). Trefniadau'n mynd rhagddynt. Bydd angen clustnodi Gwarchodwr swyddogol ar gyfer y diffibriliwr.

**7.4** **Llifogydd Afon Teifi yn ardal y Llew Coch:** mae angen tocio coed yn yr ardal. Y Cyngh. Richard Jones i glustnodi sylw i'r mater pan fydd lefel yr afon wedi disgyn

**7.5** **Baneri: Ffair Rhos a'r ardal cyfagos :** Cyng. Ieuan Davies i'w prynu ar ran y Cyngor Cymuned. 6 Baner x £50. Polyn a baner i'w gosod wrth ymyl Neuadd Pantyfedwen. Gallai baner pellach chwifio ar y Glas.

**7.6** **Prif bont y pentref:** Gwaith adnewyddu'n parhau.

**7.7** **Rheolau Sefydlog Model – Diwygiedig (fel y derbyniwyd gan Un Llais Cymru):** Rhoddwyd sylw i'r ddogfen hon ac ychwanegwyd gwybodaeth berthnasol. Y Clerc i ddiweddaru'r ddogfen ac anfon ymlaen at aelodau cyn ei uwchlwytho ar wefan y Cyngor Cymuned.

**7.8** **Gwasanaeth Sul y Cofio: 12fed o Dachwedd 2023 @10.40am ger y Gofgolofn, Pontrhydfendigaid.**

Bydd y Cynghorydd Ifan Lloyd Davies yn cysylltu â'r Cyn Gynghorydd Cymuned John Jones a'r Parch. Aled Lewis parthed Trefn y Gwasanaeth ac yn hysbysu unigolion o'u gwaith.
Cyngh. Gareth Owen wedi gofyn i Mr John Jenkins tybed a fydd yn barod i ymgymryd â rôl biwglwr, unwaith eto, eleni ac yr oedd wedi cytuno i wneud hyn.
Roedd y Cyngh. Gareth Owen wedi archebu torch dan law'r Lleng Brydeinig, Tregaron.
Bydd angen darlleniadau yn y Gymraeg a'r Saesneg. (John Jones & Ifan Davies 2022)
Darllen enwau'r Milwyr a syrthiodd (**CYTUNWYD** Y Cyng. Non-Jones a Richard Jones 2023)
Anerchiad, "Ni heneiddiant hwy…." Yn Gymraeg a Saesneg (Cyng GO &DR 2022)
Ysgol Sul: i ofyn i Mrs Neli Jones.
Gosod y Blethdorch: Cyngh. Ifan Lloyd Davies 2022 i ofyn i Emrys *Mynachlog.*

**8. GOHEBIAETH**

**8.1 Ail gam Ymgysylltu Ambiwlans Awyr Cymru i'w gynnal ym mis Hydref 2023**
Bydd ail gam Adolygiad y Gwasanaeth Casglu a Throsglwyddo Meddygol Brys (GCTMB) - am sut i wella'r gwasanaeth ambiwlans awyr yng Nghymru ymhellach a ddarperir mewn partneriaeth rhwng Elusen Ambiwlans Awyr Cymru ac GCTMB GIG Cymru - yn digwydd rhwng 09 Hydref a 05 Tachwedd 2023 ar gyfer adborth gan y cyhoedd.

**8.2 Hysbysiad ynghylch Adolygu Dosbarthiadau Etholiadol, Mannau Pleidleisio a Gorsafoedd Pleidleisio:** Yn unol ag Adran 18C Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, hysbysir y bydd Cyngor Sir Ceredigion (y Cyngor) yn cynnal adolygiad o'i ddosbarthiadau etholiadol a'i fannau pleidleisio. Bydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ar gyfer etholaeth Seneddol Ceredigion Preseli yn gwneud sylwadau ar y cynigion. Bydd y sylwadau hynny'n cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor a byddant ar gael i'w harchwilio yn llyfrgelloedd y Cyngor yn unol â'r amserlen. Gall etholwyr wneud sylwadau os ydynt o fewn ardal y Cyngor neu o fewn etholaeth Seneddol y DU sydd ag unrhyw ran yn yr awdurdod. Gwahoddir sylwadau gan bob etholwr ynghylch pa mor gyfleus yw'r gorsafoedd pleidleisio a ddefnyddir ar hyn o bryd ar gyfer etholiadau a byddai'r Cyngor Sir yn croesawu awgrymiadau ar gyfer safleoedd eraill. Byddai'r Cyngor hefyd yn croesawu barn pob preswylydd ynghylch y cynigion, sylwadau'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) neu unrhyw faterion eraill sy'n gysylltiedig â hyn. Yn arbennig, byddai'r Cyngor Sir yn croesawu barn preswylwyr anabl, neu unrhyw berson neu gorff sy'n arbenigo mewn sicrhau mynediad ar gyfer pobl gydag unrhyw fath o anabledd. Dylai unrhyw un sy'n gwneud sylwadau nodi llefydd eraill y gellid eu defnyddio fel mannau pleidleisio os yw'n bosibl.
Gellir cyflwyno sylwadau i'r Gwasanaethau Etholiadol Cyngor Sir Ceredigion gwasanaethauetholiadol@ceredigion.gov.uk . Drwy ffurflen ar-lein www.ceredigion.gov.uk – ewch i'r dudalen ymgynghori.

**8.3 Gohebiaeth gan Dafydd Wyn Morgan, Rheolwr Prosiectau, Menter Mynyddoedd Cambrian, www.thecambrianmountains.co.uk**
*Mae'n dymor i ddarganfod natur, treftadaeth, cynnyrch a llwybrau yng nghymunedau Mynyddoedd Cambrian.*
Cyfle i ddod yn Gyfarwyddwr/Cadeirydd Menter Mynyddoedd Cambrian. O'r Pumlumon i lawr drwy'r Elenydd i Goedwig Brechfa. E-bost diddordeb i cmtnscic@gmail.com.
Cyfle i ymuno a hyrwyddo'r ymgyrch #shwmaehydref yr hydref hwn.
Bron i 100 delwedd o ogoniant hydref Mynyddoedd Cambria.
Mae digwyddiadau syllu ar sêr Cymuned Coedwig Brechfa wedi cael eu cynnal yn ddiweddar yn Ardal Coedwig Brechfa.

Ffair Fwyd, Diod a Chrefft Mynydd Cambrian., Bwlch Nant yr Arian,

Ponterwyd. 28.10.2023

Sioeau Teithiol Croeso Cymru 2023 + Cynhadledd Twristiaeth Canolbarth Cymru 2023

Mynyddoedd Cambria – fideos thema #shwmaehydref.

Cystadleuaeth ffotograffau Mynyddoedd Cambrian.

**Er gwybodaeth.**

**8.4** **Cyfarfod Pwyllgor Ardal Ceredigion:** Un Llais Cymru: nos Fercher 25ain Hydref 2023 am 7pm.

**8.5** **Gohebieth Pellach:** er gwybodaeth yn unig. Roedd llawer o negeseuon e-bost wedi eu hanfon ymlaen at Gynghorwyr rhwng cyfarfodydd, yn electronig.

**9. CYNLLUNIO**

**Safle Parc Teifi,** Pontrhydfendigaid: Adroddodd y Cyngh. Ifan Davies na fyddai'n bosib i'r Cyngor Cymuned na Chyngor Sir Ceredigion fenthyca arian i brynu Safle Parc Teifi. Gallai'r perchnogion presennol geisio newid i'r statws cynllunio.

**10. CYLLID**

**10.1** **Torri Gwair** – Mr Dilwyn Benjamin £2,286 (gan gynnwys TAW)
**10.2** **Cyflog y Clerc Medi 2023** £238.33 (gros)
**10.3** **Costau'r Clerc** £51.50 (gan gynnwys TAW)

**11. EITEMAU AR GYFER FB:**

Y Cyngh. Ieuan Davies i bostio'r eitemau perthnasol ar Fb y Cyngor Cymuned sef gwybodaeth yn ymwneud â Sul y Cofio a'r Ymgyrch "Chwilio am help gyda throseddau Casineb"

**12. UNRHYW FATER ARALL**

**12.1** **Adroddodd y** Cyngh. Richard Jones fod £11,000 wedi ei godi yn ystod y "Diwrnod Rasys" yn ddiweddar.
**12.2** **Problemau gyda dŵr yn** gorlifo a'r gwter ar faes parcio'r ysgol. I adrodd at sylw i Clic, Ceredigion.
**12.3** **Mae bollt bar y sleid** ym Mharc Pantyfedwen angen sylw. Y Cyngh. Gareth Owen i ymchwilio.

**Daeth y cyfarfod i ben am 9.20pm.**

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: Dydd Iau 16eg o Dachwedd 2023 am 7pm yn Llyfrgell Neuadd Pantyfedwen.**

**Arwyddwyd/Dyddiad ----------------------------------------------------------------------------------------------**